## RHYBUDD YN CADARNHAU GORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS

## DEDDF PRIFFYRDD 1980

### Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy

### i Wyro Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Cyhoeddus Rhif 30 yng Nghymuned Llansannan) 2009

Ar 9 Gorffennaf 2009, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r Gorchymyn uchod, a wnaed dan Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r darn hwnnw o Lwybr Cyhoeddus Rhif 30, yng Nghymuned Llansannan sydd yn dechrau ar gyfeirnod grid SH0037 6668 ac yn mynd tua'r gorllewin am 87m ac yn troi i'r dde am 43m tan ei gyffordd gyda llwybr troed 29 ar gyfeirnod grid SH0028 6664 a gaiff ei ddangos gan linell barhaus braff ar fap y Gorchymyn i ddilyn trywydd gwahanol.

Mae trywydd newydd y llwybr yn dechrau ar gyfeirnod grid SH0037 6668 ac yn mynd yn gyffredinol tua'r de am 65m a drwy gât ar gyfeirnod grid SH0037 6662 gan orffen wrth ei gyffordd gyda llwybr troed 29 ar gyfeirnod grid SH0037 6661 a gaiff ei ddangos gan linell doredig ddu braff ar fap y gorchymyn. Lled y llwybr yw 1.5m.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd, a map y Gorchymyn, yn swyddfeydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Bodlondeb, Conwy, yn ystod oriau swyddfa arferol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Gorffennaf 2009; ond os bydd unigolyn a dramgwyddir gan y Gorchymyn yn dymuno codi cwestiwn ynghylch ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau a gynhwysir ynddo, am y rheswm na ddaw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd, neu na chydymffurfiwyd (mewn perthynas â'r Gorchymyn) ag unrhyw reoliad a wnaed dan y Ddeddf, gall ef neu hi, dan ddarpariaethau paragraff 2 Atodlen 2 y Ddeddf fel y'i gweithredir gan baragraff 5 Atodlen 6 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i ddyddiad y rhybudd hwn.

**Dyddiedig 16 Gorffennaf 2009.**

**Iwan Davies LLB (Anrhydedd) MBA,**

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol & Democrataidd.**

## NOTICE OF CONFIRMATION OF A PUBLIC PATH ORDER

## HIGHWAYS ACT 1980

### The County Borough of Conwy

### (Public Footpath No.30 in the Community of Llansannan)

### Public Path Diversion Order 2009

On 9 July 2009 the Conwy County Borough Council confirmed the above Order made under Section 119 of the Highways Act 1980.

The effect of the Order as confirmed is to divert that section of Public Footpath 30 in the Community of Llansannan commencing at grid reference SH0037 6668 and proceeding in a westerly direction for 87m and turning in southerly direction for 43m to its junction with footpath 29 at grid reference SH0028 6664 and shown by a bold continuous line on the order map to a different line.

The new line of the path commences at grid reference SH0037 6668 and proceeds in a southerly direction for 65m and through a gate at grid reference SH0037 6662 to terminate at its junction with footpath 29 at grid reference SH0037 6661 as indicated by the bold broken line on the order map. The width of the path is 1.5m.

A copy of the Order as confirmed and the order map may be seen free of charge at the offices of the Head of Legal & Democratic Services, Bodlondeb, Conwy during normal office hours.

The Order comes into force on the 16 July 2009, but if a person aggrieved by the Order wants to question its validity, or that of any provisions contained in it, on the grounds that it is not within the powers of the Highways Act 1980, as amended, or that any regulation made under the Act has not been complied with in relation to the Order, he or she may, under paragraph 2 of Schedule 2 to the Act as applied by paragraph 5 of Schedule 6 to the Act, within 6 weeks from the date hereof make an application to the High Court.

**Dated 16 July 2009.**

**Iwan Davies LLB (Hons) MBA,**

**Head of Legal & Democratic Services.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bodlondeb, Conwy**
**LL32 8DU**
**(01492) 574000**
**Cyf/Ref: HFP177/HL**